

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A  
GYNHALIWDYD AM 9:30AM AR 29 MEHEFIN 2021 YN NHŶ HASTINGS A THRWY  
'TEAMS'**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Math Williams (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 09:30**

**Amser Gorffen: 11:40**

**Ymddiheuriadau:** Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd).

## **1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## **2. Briff y Cadeirydd**

2.1. **Dywedodd** y Prif Weithredwr wrth y Comisiynwyr fod Gweinidogion wedi penderfynu ar yr argymhellion ar gyfer Rhondda Cynon Taf ac Abertawe a'i bod yn rhagweld y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Gaerfyrddin. Bydd y broses o hysbysu rhanddeiliaid fel a ganlyn:

- i) Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Phrif Weithredwr ac Arweinydd y prif awdurdod ar ddechrau'r wythnos
- ii) Yn dilyn y cyfarfod, bydd copi dan embargo o Ddatganiad Ysgrifenedig y Gweinidog yn cael ei rannu â Phrif Weithredwr y Comisiwn.
- iii) Ddydd lau am 10.00am, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn rhoi manylion canlyniad ei phenderfyniad.

2.2. Hefyd, diolchodd y Prif Weithredwr y Comisiynydd sy'n gadael, Mr Theo Joloza, am ei gyfraniad sylweddol ers ei benodi. Ychwanegodd ef ei ddiolch i'r Ysgrifenyddiaeth, gan ganmol ei gwaith wrth gwblhau'r arolwg mewn cyfnod mor fyr, o ystyried y cyfyngiadau presennol.

## **3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2021**

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

#### 4. Materion yn Codi

- 4.1. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Comisiynwyr fod canlyniadau'r Arolwg Staff wedi'u dosbarthu i'r holl staff ac y bydd gwaith dilynol yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Pobl. Nodwyd hefyd y bydd Hyfforddiant Insights yn cael ei gynnal ar 12 a 28 Gorffennaf.
- 4.2. **Nodwyd** y cafodd mater y Ddogfen Cytundeb Fframwaith ei drafod yn y cyfarfod Cyswllt diweddar â'r Is-adran Noddi.
- 4.3. Mae'r Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at bob un o'r 22 o Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, ac at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru, yn rhoi gwybod iddynt bod Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017 wedi'i chwblhau ac yn diolch iddynt am eu cefnogaeth. Mae'r Comisiwn wedi cael nifer o ymatebion cefnogol.
- 4.4. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn 2 gais Rhyddid Gwybodaeth. Roedd un yn ymwneud yn benodol ag arolwg etholiadol Sir Fynwy. Cafwyd cais gan Gyngor Sir y Fflint yn gofyn am rannu ymateb y Comisiwn i'r Gweinidog mewn perthynas â'r cais am wybodaeth ychwanegol. Nid yw hyn yn cael ei drin fel cais Rhyddid Gwybodaeth.

#### 5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 5.1. **Dywedodd** y Pennaeth Polisi a Rhaglenni fod yr holl arolygon etholiadol wedi'u cwblhau bellach, yn dilyn cwblhau arolwg Sir Fynwy
- 5.2. **Cytunodd** y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a'r Comisiynwyr, o ystyried bod y rhaglen arolygon etholiadol wedi'i chwblhau, y bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn darparu diweddariad ym mhob cyfarfod i roi gwybod i aelodau am statws y penderfyniadau a'r gorchmynion a wneir gan Lywodraeth Cymru.
- 5.3. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn darparu amserlen wedi'i diweddarau sy'n dangos pryd fydd penderfyniadau a Gorchmynion Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi.

#### 6. Diweddaru'r Arolwg Cymunedol

- 6.1. **Nododd** y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, pan fydd y ddogfen ganllawiau wedi'i chytuno, bydd fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi ar y wefan a'i hanfon at awdurdodau lleol.

- 6.2. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn hysbysu rhanddeiliaid y bydd yn diweddarau ei ganllawiau ac y byddant yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Medi.
- 6.3. **Cytunwyd** bod y canllawiau'n barod i gael eu cyhoeddi yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 7. Comisiynu Papur Ymchwil Annibynnol

- 7.1. **Nodwyd** bod yr ysgrifenyddiaeth wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru a fydd yn cynorthwyo â'r broses dendro ar gyfer cael ymchwil annibynnol i'r ffactorau gwahanol sy'n effeithio ar rôl cynghorydd.
- 7.2. **Cytunwyd** hefyd y byddai'n werth cwrdd â rhanddeiliaid allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, a Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o ffurfio gweithgor er mwyn llunio model maint cyngor ar gyfer y rhaglen arolygon nesaf.
- 7.3. **Cytunwyd** y dylid cynnal cyfarfod â rhanddeiliaid allanol ym mis Medi. Yn y cyfamser, bydd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cynnal rhai trafodaethau cychwynol â phartïon â buddiant posibl.

## 8. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

- 8.1. **Hysbyswyd** yr aelodau gan y Rheolwr Cyllid am danwariant cymedrol ar ddiwedd mis Mai. Dywedwyd bod y gyllideb newydd ar gyfer lles staff wedi'i sefydlu bellach â chyllid o £5k wedi'i drosglwyddo o'r gyllideb gyfreithiol.
- 8.2. **Nodwyd** hefyd, yn dilyn o'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, y bydd y Rheolwr Cyllid yn parhau i neilltuo nifer o gyllidebau addas i'w rheoli gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, y Pennaeth Busnes a'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- 8.3. **Nododd a chytunodd** y Comisiwn ar sefydlu'r gyllideb newydd ar gyfer lles staff a throsglwyddo arian iddi o'r gyllideb Gyfreithiol.

## 9. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

- 9.1. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u gweithredu.
- 9.2. **Cytunwyd** y dylid dileu risg CR2 o'r gofrestr.

- 9.3. **Cytunwyd** y bydd 'Cam 5' yn cael ei ychwanegu at gamau lliniaru CR1 mewn perthynas ag ymrwymiad y Comisiwn i ymgynghori ar Bolisi ac Arferion ar gyfer y rhaglen arolygon newydd a chyhoeddi canfyddiadau ymchwil y Rhaglen Arolygon Etholiadol ar y rhyngwyd.
- 9.4. **Cymeradwywyd** y gofrestr newydd yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Rheolwr Cyllid.

## 10. Cyfrifon Blynyddol Drafft 2020-21

- 10.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig mis Mai 2021 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.
- 10.2. **Dywedodd** y Rheolwr Cyllid fod y cyfrifon drafft yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. **Cytunwyd** y dylid newid cyfeiriadau at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i 'Weinidogion Cymru' a chynigiwyd nifer o fân newidiadau eraill.
- 10.3. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol Drafft 2020-21 yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 11. Adolygiad o'r Polisi Twyll

- 11.1. **Cytunwyd** y bydd y Polisi Twyll a Llygredd yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 12. Polisi Rhoddion a Lletygarwch

- 12.1. **Dywedodd** y Rheolwr Cyllid wrth y Comisiwn na wnaed unrhyw newidiadau i'r systemau ers y cyfarfod diwethaf. **Cytunwyd** y bydd y Polisi Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 13. Adolygiad o'r Polisi Cwynion

- 13.1. **Cytunwyd** y bydd y Polisi Cwynion yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 14. Polisi Rheoli Risg

- 14.1. **Cytunwyd** y bydd y Polisi Rheoli Risg yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 15. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

15.1. **Nodwyd** bod y swyddfa'n parhau i weithredu ar system rota.

## **16. Calendr Digwyddiadau**

16.1. **Cytunwyd** na fydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer mis Awst 2021, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cadeirydd.

## **17. Unrhyw Fusnes perthnasol arall**

17.1. Nid oedd unrhyw fusnes perthnasol arall.

## **18. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 27 Gorffennaf 2021**